Taflen Waith
Blwyddyn 7

**Cyfrifo canran o rif**

Enw: .....

1. Roedd gwerthwraig cyfrifiaduron yn derbyn comisiwn o 5% ar bopeth yr oedd yn eu gwerthu. Gwerthodd gyfrifiaduron i Ysgol y Creuddyn. Os oedd yr ysgol wedi talu £9000 am y cyfrifiaduron, faint o gomisiwn a dderbyniodd hi?
   .....
   .....

2. Cyfrifwch y canrannau canlynol.
   (a) 25% o £8.40 .....
   (b) 20% o £3.15 .....
   (c) 50% o £210 .....
   (ch) 30% o £7.50 .....
   (d) 15% o £9.40 .....
   (dd) 95% o £314 .....
   (e) 5% o £1.20 .....

3. Aeth Dewi a'r teulu allan am swper. Costiodd y pryd £35. Rhoddwyd cildwrn (*tip*) o 10% i'r ferch a fu'n gweini arnynt. Faint o gildwrn a roddwyd iddi?
   .....
   .....

4. Dywedodd Siân fod 30% o £45 yr un faint â 45% o £30. A yw Siân yn gywir?
   .....
   .....
   .....
   .....

5. Mewn etholiad dim ond 55% o boblogaeth tref a bleidleisiodd. Faint o bobl a bleidleisiodd os oedd poblogaeth y dref yn 25,300?
   .....
   .....

6. Mae 1340 o ddisgyblion yn Ysgol y Wern. Mae 55% o'r disgyblion yn fechgyn. Sawl **merch** sydd yn yr ysgol?
   .....
   .....